



## Cerddi'r Apocryffa

Dafydd Johnston

Dylid darllen y sylwadau hyn yng ngoleuni'r drafodaeth ar awduraeth yn yr adran flaenorol. Gellir bras ddsbarthu cerddi'r apocryffa yn bedwar categori yn ôl cryfder y dystiolaeth llawysgrifol:

a) Tystiolaeth y llawysgrifau dros awduraeth bardd arall, neu feirdd eraill, sydd yn gyfwerth â'r dystiolaeth dros awduraeth DG (er nad o reidrwydd o ran nifer y llawysgrifau), neu'n gryfach. Gellir disgwyl y bydd ansawdd y gerdd yn ategu tystiolaeth y llawysgrifau. Ni dderbyniwyd unrhyw gerddi o'r categori hwn i'r canon. Mae dros 50 o gerddi'r apocryffa yn syrthio i'r categori hwn.

b) Tystiolaeth y llawysgrifau dros awduraeth bardd arall, neu feirdd eraill, sydd yn wannach na'r dystiolaeth dros awduraeth DG. Rhaid ystyried ansawdd y gerdd yn ofalus er mwyn penderfynu ei ddilysrwydd. Ni dderbynnir cerddi o'r categori hwn yn ddilys fel arfer, ond gellir gwneud yn eithriadol, e.e. 'Tri Phorthor Eiddig', rhif 68). Mae 9 o gerddi'r apocryffa yn y categori hwn: A15, A19, A43, A57, A117, A123, A150, A169, A186.

c) Tystiolaeth y llawysgrifau o blaid awduraeth DG yn unig, ond yn wan. Mae angen nodweddion pendant i gyfiawnhau derbyn cerddi o'r math hwn, ond mae rhai enghreifftiau yn y canon fel y nodwyd uchod, e.e. 'Morfudd yn Hen' (rhif 150). Hwn yw'r categori mwyaf niferus ymhlith cerddi'r apocryffa (dros 100, heb gyfrif ffugiadau lolo Morganwg).

ch) Tystiolaeth y llawysgrifau o blaid awduraeth DG yn unig, ac yn weddol gryf o leiaf. Derbynnir y rhain fel arfer, os yw nodweddion eraill o blaid awduraeth DG. Ond perthyn 14 o gerddi'r apocryffa i'r categori hwn: A31, A39, A76, A82, A95, A98, A109, A111, A119, A131, A134, A161, A162, A189.

### **A1 Adeilais dŷ fry ar fryn (BDG LXXXVII)**

Cywydd ar thema'r deildy a briodolir i DG mewn 15 llawysgrif, ond i Gronw Ddu mewn 9, gan gynnwys y copïau cynharaf yn BM 29 a Pen 112. Mae'n ddiennw yn CM 22. Mae testun BDG yn cynnwys cwpled o 'I Wahodd Dyddgu' (88.39–40). Mae hwn yn amlwg yn gywydd cynnar, ond nid oes dim ynddo sy'n rhoi achos i amau'r priodoliad i Gronw Ddu. Fe'i cyhoeddir fel ei waith ef yn *Gwaith Madog Benfras ac Eraill*, cerdd 13.

### **A2 Af i'th ganmol ferch ganolfain**

Nid oes ond un copi o'r cywydd hwn, LIGC 673 yn llaw William Jones, Llangollen (19g.).

**A3 A goreugreffft yr awgrym**

Cywydd byr a geir wrth enw DG yn BM 24, 43, a heb y cwpled cyntaf yn C 64, 516 ('Ai gwir fod gwewyr yn f'ais'). Mae'r arddull yn bur syml, ond digwydd yr enw Morfydd ynddo ddwywaith, ac mae'n debyg mai dyna paham y priodolwyd ef i DG.

**A4 Agor y ddôr er cariad (GDG tt. 420–I)**

Ymddiddan rhwng y bardd a gwrach am y modd y gwneir blawd ceirch, ar fesur englyn unodl union a thoddeidiau. Ceir copi gan John Jones, Gellilyfdy yn Pen 111, ac un arall yn LIGC 21582.

**A5 Ai i'r gwinau tenau tin gregin (GDG t. 419)**

Englyn unodl union yn ateb englyn gan Rys Meigen (gw. ymhellach nodiadau rhif 31). Fe'i ceir mewn 7 llawysgrif o'r 17g. ymlaen.

**A6 A mi ar deg foregwaith (BDG CXC VII)**

Cywydd ymddiddan â merch o Fôn sydd am briodi hwsmon. Arddull gypledol; *inne* yn odli â *nawne*. H 26 yw ffynhonnell pob copi arall.

**A7 A mi neithwyr hwyr fy hynt (BDG Ychwanegiad III)**

Gwaith lolo Morganwg, gw. IMChY 16–18.

**A8 A mi noswaith nid gwaith gwych (BDG CXV)**

Cywydd ymddiddan â barcud mewn arddull syml iawn. H 26 yw ffynhonnell pob copi arall.

**A9 A mi y' ngoror gorallt (BDG LXX)**

Gwaith lolo Morganwg, gw. IMChY 6–10.

**A10 Aro y ferch anerchdeg**

Fersiwn creadigol o 'Canu'n lach' (104), a'r llinell gyntaf yn hollol wahanol. Wy 2, 96 yw ffynhonnell y pedwar copi arall. Fe'i rhestrir fel un o gerddi'r apocryffa yn GDG<sup>1</sup> clxxii.

**A11 A wyddont hwy pwy o'm pwynt**

BM 53, 386b yw'r unig llawysgrif sy'n priodoli'r cywydd hwn i DG; gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel ydyw, GOLIM 26.

**A12 Balch fydd merch o'i hanerchion**

Darn 14 ll. a geir yn Ll 122 yn unig. Mae'n debyg o fod yn rhan o gywydd arall.

**A13 Beunydd yr wyf i boeni / Peunydd yr wyf yn poeni (BDG LXXXIX; DGG<sup>2</sup> IV; BU 31; DGA 14)**

Cywydd yn cwyno am y Gŵr Eiddig mewn arddull syml a chypledol. Fe'i priodolir i DG mewn 20 llawysgrif, gan gynnwys Pen 76 a C 7 (ond ychwanegwyd 'nid' o flaen enw DG gan law ddiweddarach), ond i Lawdden mewn 7, i Ieuan Rhaeadr mewn 7, ac i Ruffudd ab Ieuan mewn 2. Nis derbyniwyd fel gwaith Llawdden yn GLL.

**A14 Blaenion egin rhin glyn rhos**

Ceir yr englyn hwn wrth enw DG yn C 63 (Richard ap Siôn o Ysgorlegan) yn unig. Fe'i priodolir i Ddeio ab Ieuan Du mewn llawysgrifau eraill, ond nis cynhwyswyd yn GDID.

**A15 Blin yw ysgar â chariad**

Priodolir y cywydd hwn i DG yn Pen 76 a C 7, ond awgrymir enw Robin Daeliwr hefyd yn yr olaf. Mae'r arddull yn syml ac yn gypledol.

**A16 Bun wen lliw llen ar brenfrig (BDG LXVI)**

Cywydd byr yn melltithio'r Gŵr Eiddig. Odli'r *pwdwr* a *teilwr*. BM 36 (ar ôl 1609) yw'r copi cynharaf, a ffynhonnell y 5 arall ond odid.

**A17 Bychan oedd gan Ddianis (BDG XXXIV)**

Cywydd syml am ferch yn gohirio oed â'r bardd trwy ddyddiau'r wythnos. Odlir *Difiau a gosodai*. Fe'i ceir wrth enw DG yn C 7, G 3 (copi o C 7?), Pen 104 a Bl f 3.

**A18 Byr yw'r oed bwrw yr ydwyf**

Pen 312 (John Jones, Gellilyfdy) yn unig sy'n priodoli'r cywydd hwn i DG. Gwaith Ieuan Deulwyn ydyw yn ôl BM 23 a llawysgrifau eraill (gw. GID VI). Cywydd gwahanol yw'r un gan Huw Cae Llwyd sy'n dechrau â'r un llinell gyntaf, GHCLI XXX.

**A19 Cadi dyn ieuanc ydwyd (BDG CXCIX)**

H 26 yw ffynhonnell pob copi, ac awgrymir yno mewn nodyn wrth ymyl y ddalen mai gwaith Siôn ap Hywel ydyw. Ar sail yr awgrym hwnnw argraffwyd y cywydd yn GSH, *Atodiad ii*.

**A20 Cannaid yw'r nwyf a'm cynnail (BDG CLXIV)**

Cywydd i yrru'r wennol yn llatai. H 26 yw ffynhonnell pob copi ond M 146, ac ychydig o wahaniaeth sydd rhwng y ddau destun. Fe geir rhai sangiadau, ac ambell frawddeg yn gorlifo dros ddau gwpled, ond syml yw'r arddull ar y cyfan. Mae'r strwythur yn wahanol i gerddi llatai DG, gyda llawer mwy o sylw i'r ferch ac ond ychydig o ddisgrifio'r llatai. 'Cywydd da, ond yn ddiau yn ddiweddarach na DG' yw dyfarniad Thomas Parry, ac anodd anghytuno â hynny.

**A21 Caru dyn ifanc hirwen (BDG CLXXIX; DGG<sup>2</sup> IX; DGA 13)**

Mae'r cywydd hwn ar thema'r deildy yn cynnwys nifer o adleisiau o gerddi DG, ond mae'r arddull a'r ymdriniaeth yn symlach na'i gerddi ef ar y thema hon. Mae'r odl o gyswllt yn 'Wrthyf er llysu fy llais' yn amheus, ac felly hefyd y ffurf lafar *dallt*. Yr un testun a geir yn y 7 copi, ac mae'n debyg mai H 26 yn ffynhonnell pob un.

**A22 Caru dyn lygeitu lwyd (BDG X; DGG<sup>2</sup> III; DGA 19; OBWV 60)**

Cywydd i leian (gw. Fulton, 1991) mewn arddull syml iawn, a'r cwpledi'n gryno (e.e. 'Dy grefydd, deg oreuferch, / Y sydd wrthwyneb i serch'). Fe'i priodolir i DG mewn tair llawysgrif o ddechrau'r 17g. (G 2, C 5.44, CM 5).

**A23 Caru perchen cae arian (BDG CLII)**

Cywydd ymddiddan â merch dan ei ffenestr. Bl e 1 yw ffynhonnell pob copi arall.

**A24 Caru'r wyf is cwr yr allt (BDG CXCI)**

Harddwch y ferch a rhwystredigaeth y bardd o'i herwydd yw dwy thema'r cywydd hwn, ac mae'r arddull yn nodweddiadol o ganu serch y 15g. (gan gynnwys nifer isel iawn o gynganeddion sain). Pen 312 (John Jones, Gellilyfdy) yw'r copi cynharaf.

**A25 Caru'r wyf pwy a'i cerydd (BDG CLXIX)**

Cywydd unodl am wraig crydd a briodolir i DG yn ail ran Pen 57 a BM 24, ac i Ddafydd ab Edmwnd yn BM 23, (gw. GDE XV). Ond yn H 26 dywedir 'Eraill a ddywaid mai Rhys ai Howell dd llwyd'. Mae'r ieithwedd yn syml iawn, ac mae'n amlwg yn waith bardd diweddarach na DG.

**A26 Caru wnaif fi curio'n faith**

Enwir Morfudd yn ll. 2, ond cywydd disgrifiadol yn null y 15g. yw hwn. Nid oes ond dau gopi o'r 17g., Br 5 a Pen 200.

**A27 Cefais ddoe ym mlaen cyfair (BDG CC)**

Cywydd sy'n cyffelybu serch i hwsmonaeth (fel rhif 109 ond yn llawer symlach o ran arddull). Fe'i priodolir i DG mewn 15 llawysgrif o'r 17g. ymlaen, ac i lolo Goch mewn 10 (oherwydd enwogrwydd 'Cywydd y Llafurwr' efallai). Mae wrth enw Gruffudd Hiraethog yn LIGC 644. Mae'r llinell 'Prif hwsmon ar Feirion wyf' yn awgrymu mai bardd o Feirionnydd oedd yr awdur.

**A28 Cefais oed cofus ydwy**

Darn 20 llinell a geir yn H 26 yn unig (a 'nid Dafydd' yn llaw Thomas Wiliems gyferbyn â'r testun). Mae'r cwpled olaf yr un fath â chwpled olaf 'Gwadu' (145.21–2), ac efallai mai dyna pam y cafodd y darn ei briodoli i DG.

**A29 Ceisiwch trysoliwch trwy seiliaw y drws**

Englyn a geir yn C 52 yn unig. Ar ei ôl ceir 4 llinell o'r cywydd 'Yr Haf' (rhif 34) wedi'u priodoli i DG. Cyhoeddwyd fersiwn arall o'r englyn fel gwaith Deio ab Ieuan Du, GDID 23.

**A30 Cerais ddyn fwyn ei hwyneb**

Ceir y cywydd hwn wrth enw DG yn BL 14876, LI 14, LI 133, LIGC 6238 a C 2.616, ond gwaith Siôn Tudur ydyw yn ôl nifer fawr o llawysgrifau, gw. GST 168.

**A31 Cerais ferch yn dra serchog / . . . fal gŵr serchog (BDG C; DGA 38)**

Cywydd unodl byr am gasineb Eiddig at y gog. H 26 yw ffynhonnell nifer o'r copïau, ond fe'i ceir yn LI 6 a 4 o Isgrau Llywelyn Siôn hefyd, ac felly mae'n bosibl ei fod wrth enw DG yn Llyfr Wiliam Mathew neu ffynhonnell gynnar arall o Forgannwg. Yn ôl TP mae'r grefft yn 'gwbl annheilwng o DG.' Mae'r ieithwedd yn syml iawn, a cheir y ffurf lafar gwyddyn yn odli â *gelyn*.

**A32 Cerais ni cherddais ychwaith**

'Cywydd syml a di-gamp ydyw, heb arno ddim o nodau arferol DG' yn ôl Thomas Parry. Tri chopi llawysgrif a geir, sef BL 14988, BL 14994, LI 42, a dim un yn gynharach na'r 17g.

*Ceres fileines luniedd gw. Rhodiais er pan welais wen*

**A33 Claf ydwyf mewn clwyf oediog**

Cywydd yn null canu serch y 15g. a briodolir i DG mewn 4 llawysgrif o'r 17g. ymlaen (Pen 198, Pen 239, CM 129 a LIGC 10748). Odlir *cwbwl* a *cŵl*.

**A34 Clos a gefais clas gwiwfardd (BDG Ychwanegiad VI)**

Gwaith lolo Morganwg, gw. IMChY 21–2.

**A35 Corn dydd brawd a'i sawd a yrr sŵn**

Tri englyn crefyddol a briodolir i DG yn LI 167 (c. 1623) yn unig, ac a geir yn ddienw yn M 131 a LI 165.

**A36 Cosbwr y marwol bechawd (DGA 4)**

Cywydd dychan i Frawd Du a briodolir i Fadog Benfras yn y copi cynharaf, Pen 54, a hynny ynghanol cyfres o gerddi a briodolir i DG. H 26 a BM 31 yw'r llawysgrifau cyntaf sy'n ei roi i DG. Mae yma fwy o ddychan agored nag yng ngherddi DG i'r Brodyr. Tynnodd Thomas Parry sylw at y ffaith bod y gair prin *hair* i'w gael yn y cywydd hwn ac yng nghywydd Madog Benfras i'r halaenwr (OBVV t. 72). Fe'i cyhoeddir yn *Gwaith Madog Benfras ac Eraill*, cerdd 2.

**A37 Creadur cadarn heb gig heb asgwrn**

Darn o 'Canu'r Gwynt' yw hwn (gw. LIT t. 36). C 64 yn unig sy'n ei briodoli i DG (oherwydd cymysgu â rhif 47 yn ddiau), ac ychwanegir yno 'Eithr eraill a ddyfyd mai Taliesin ben bardd ai canodd ac ai esgrifenodd yn oed yr arglwydd 556.'

**A38 Cylennig yw cael einioes (GLI 2)**

Mae tystiolaeth y llawysgrifau'n gryfach o blaid Llawdden na DG, ac fe'i cyhoeddwyd yn GLI.

**A39 Cyrch yr edn diaflednais (BDG CLXXXIX; DGG<sup>2</sup> XXXIII; DGA 29; OBVV 50; GLIGMH 9)**

Gwaith DG yn ôl traddodiad y Vetustus (gan gynnwys BM 24), ond fe'i cyhoeddwyd fel gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen yn GLIGMH. Anfonir y penlōyn yn llatai at 'wraig Ddafydd' ym Meiri-onnydd, a dadleuir yn GLIGMH t. 92 mai Lleucu Llwyd oedd honno.

**A40 Dadmer beredd lawedd led**

Darn o gywydd llatai a geir yn LIGC 21582, 30v. Mae'r llinellau cyntaf yn fylchog, a'r llinell uchod yw'r un gyntaf y gellir ei darllen yn llawn.

**A41 Dafydd o ddyffryn Dyfi**

C 64 yn unig sy'n priodoli'r cywydd hwn i DG (oherwydd yr enw yn y llinell gyntaf efallai). Fe'i priodolir i Lywelyn ap Gutun yn BL 31071, ac mae'n ddiennw yn LI 53, M 130, BM 52 a BL 14996.

**A42 Dafydd y sydd yn d'ofyn (CMOC 12)**

Cywydd ar ffurf ymddiddan rhwng mab a merch mewn arddull syml iawn. M 212 yw'r cynharaf o'r pum copi llawysgrif (darn yn unig a geir yn C 84). Tebyg mai oherwydd yr enw yn y llinell gyntaf y priodolwyd hwn i DG hefyd.

**A43 Dal neithiwr delwi wneuthum (BDG VIII; DGG<sup>2</sup> XXV; DGA 18; OBWV 59)**

Cywydd i leian o'r enw Gwenonwy (gw. Fulton, 1991). Fe'i priodolir i DG mewn 22 o lawysgrifau, gan gynnwys BM 29 a H 26, ond mewn pedair, gan gynnwys C 7, y copi cynharaf, fe'i rhoir i Hywel ap Dafydd. Darlunnir pryd a gwedd y ferch yn gywrain ac yn llyfn yn null canu disgrifiadol y 15g., ac felly mae'r priodoliad i Hywel ap Dafydd yn gredadwy.

**A44 Da o beth fydd deubeth fwyn (BDG CXLVIII)**

Cywydd serch yn cwyno am ddioddefaint y bardd mewn cwpledi trawiadol yn null y 15g. Mae'n debyg mai CM 5 yw ffynhonnell y 4 copi arall.

**A45 Deng ewin i Heilin a hiliwyd (GDG t. 418)**

Englyn unodl union i gath, 'yr englyn cynta a wnaeth Dafydd ap Gwilym' yn ôl CM 25, 145.

**A46 Difwyn fu rodfa Dafydd (CMOC 3)**

Cywydd yn anfon cal a cheilliau'r bardd yn llatai at ryw ferch. Mae'r arddull yn gypledol yn bennaf, ac fe ddisgwyliid tipyn mwy o ddyfalu gan DG ei hun (cymh. rhif 85). Yn Bd 3 (ail hanner y 16g.) y ceir yr unig gopi, ac fe ddichon ei briodoli i DG oherwydd yr enw yn y llinell gyntaf.

**A47 Diwendig riain serchog / Dydd da yt riain serchog / Duw a'th fendigo ferch serchog (BDG CLXXX)**

Ymddiddan rhwng mab a merch mewn arddull syml iawn. Dwy o lawysgrifau Llywelyn Siôn yw'r dystiolaeth gynharaf.

**A48 Doe gwelais arswydais oed (BDG CLIV; DGA 48)**

Cywydd ymddiddan maswedus rhwng merch ifanc a hen offeiriad. LI 6 yw ffynhonnell y tri chopi arall. Tynnodd Thomas Parry sylw at grefft ddiffygiol y cywydd (llinellau rhy hir, trin geiriau fel *cadw* ac *uthr* yn ddeusill), ond fe ddichon fod y testunau'n llwgr. Dadleuodd Saunders Lewis dros ddilysrwydd y cywydd yn LIC ii (1953), 203, yn bennaf ar sail y cyfeiriad at 'hen Glement'. Bu Glement VI yn Bab 1342–52, ond ni raid cymryd bod y cywydd yn gyfoes â'i babaeth. Mae cywydd arall â'r un llinell gyntaf wedi'i briodoli i 'Syr Glement' yn C 7, 776 a Pen 112, 341.

**A49 Doe gwelais ddyn lednais lân (BDG XXV; DGG<sup>2</sup> II; DGA 2)**

Dafydd ab Edmwnd biau'r cywydd hwn am wallt merch yn ôl y llawysgrifau cynharaf (Pen 76, BM 23 a C 7), ac fe'i cynhwyswyd yn GDE, rhif XXV. Mae'r arddull rugl yn cadarnhau mai gwaith Dafydd ab Edmwnd ydyw.

**A50 Down i gyd pand iawn y gwaith**

Darn o 'Dafydd yn sydd yn d'ofyn' (A42) a geir yn C 84 a LIGC 278.

**A51 Duw a'm gwnaeth ar draeth gwir dri**

Chwe englyn crefyddol a briodolir i DG yn C 64 yn unig.



**A52 Duw'n tad, Duw'n cennad, Duw'n cynnydd (BDG CCXLIII)**

Englyn crefyddol, ac un arall yn ei ddilyn mewn rhai llawysgrifau. Fe'i priodolir i DG yn Ba (M) 6, M 131 ac 8 llawysgrif arall. Nid oes dim ynddo sy'n awgrymu ei fod yn waith DG.

**A53 Duwies baenes heb eni moi bath**

Englyn i ferch a geir ymhlith cerddi DG yn C 64 ond heb enw wrtho.

**A54 Dwyn clwyf ydd wyf am y ddyn**

Cywydd byr mewn arddull syml. M 129 yw'r cynharaf o'r pum copi.

**A55 Dychrynais dotiais glywed ateb / Clwyfodd f'ais . . .**

Englyn a briodolir i DG yn Ll 173, Bl f 5 a Pen 198. 'I ferch Ifor Hael' yw'r teitl a roddir iddo yn Pen 198 (diwedd yr 17g.), ond nid oes dim yn yr englyn ei hun i gadarnhau hynny.

**A56 Dydd daed fy rhain feinwen**

Priodolir y cywydd hwn i DG yn BL 14988, BL 14994, C 64 a T, ond i Fedo Brwynllys, Harri ap Hywel a Dafydd Gowper mewn llawysgrifau eraill. Dadleuir o blaid awduraeth yr olaf yn GSPHe 117–18, ac fe ddichon mai oherwydd yr enw Dafydd y rhoddwyd ef i DG. Mae'r arddull yn nodweddiadol o'r 15g.

**A57 Dydd daed y rhagor forwyn (BDG CXCVI)**

Cywydd cyngor i wraig a briododd gâr i'r bardd. Fe'i priodolir i DG mewn 29 o llawysgrifau, gan gynnwys LIGC 1553 (ffynhonnell G 3) a H 26, ond i Robin Ddu yn LIGC 643 (17g.). Ar ôl enw DG yn LIGC 1553, 211 ysgrifennodd Rosier Morris, Coedytalwrn, 'verisimilius est alterius esse posterioris aetatis canticum' ('mae'n fwy na thebyg mai cerdd o gyfnod arall, diweddarach, ydyw'). Dengys iaith ac arddull y gerdd ei bod yn perthyn i gyfnod diweddarach na DG.

**A58 Dydd da i'r draenllwyn a wynnai**

Cywydd unodl i fis Mai, sydd yn amlwg yn ddynwarediad o gywydd DG, rhif 32. Ymddengys fod cyfeiriad at waith DG yn yr ail gwpled: 'Davydd aeth i waith difai / i voli'r llwyn er mwyn mai'. Ond mae'r cywydd hwn yn symlach o lawer na'i waith ef. Nid oes ond dau gopi, sef H 26 a M 212 a'r ddau'n tarddu o'r un gynsail yn ôl pob tebyg.

**A59 Dydd da i'r fun er f'anhunedd (DGA 12)**

Priodolir y cywydd hwn i DG yn G 3 (ffynhonnell LIGC 8330) a LIGC 560, ond mae darnau ohono i'w cael mewn cywydd serch gan Dudur Aled, GTA CXXVIII.

**A60 Dydd da i'r iaith Gymraeg**

BL 14999 (17g.) yw'r unig gopi, ac nid yw'n debyg i waith DG o gwbl.

**A61 Dyfi wendon dwf feindeg (GDLI 81)**

Priodolwyd y cywydd i DG yn gyntaf yn H 26, 443, ond dywedir wedyn 'D. llwyd ll'n ap Gr: yn hydrach', ac mae 6 llawysgrif. arall yn ei roi i Ddafydd Llwyd. Fe'i cyhoeddwyd fel ei waith ef yn GDLI.

**A62 Dyn wyf o'r byd dan fawr bwys**

Yr unig dystiolaeth dros awduraeth DG yw pedwar copi gan Lywelyn Siôn (a BM 53 yn gopi o un ohonynt). 'Yr iaith yn llwgr a'r arddull yn llipa' oedd dyfarniad Thomas Parry.

**A63 Dyn yw fyw fardd gardd hardd hwnt (GDG t. 414)**

Englyn proest o eiriau unsill a briodolir i DG yn LIGC 695, LIGC 5283 a LIGC 17528

**A64 Dyw Sulgwaith dewis wylgamp (BDG CCXXXVIII)**

Cywydd ymddiddan ag ysbryd. Fe'i priodolir i Ieuan ap Rhydderch a Ieuan Brydydd Hir hefyd, a chyhoeddwyd ef fel gwaith y cyntaf yn GIRh, rhif 6.

**A65 Er un ferch oerion yw f'ais (BDG CLVII; DGG<sup>2</sup> XII; DGA 7)**

Cywydd di-nod mewn arddull syml iawn. Bl e 1 yw ffynhonnell y 7 copi arall.

**A66 Fal yr oedd fawr ei hafrad (CMOC 19)**

Traethodl yn null y *fabliau* sy'n cynnwys tipyn o iaith ansafonol. Mae'n debyg mai H 26 oedd cysail y 12 copi arall.

**A67 Fal yr oeddwn gwn gynnydd**

Cywydd ymddiddan rhwng hen wŷr a merch ifanc mewn arddull syml iawn. H 26 yw'r unig gopi.

**A68 Fal yr oeddwn yn nhrwyn y rhiw (BDG CXLV)**

'Dynwarediad sâl o Gywydd y Biogen' yn ôl Thomas Parry (gw. ymhellach GDG<sup>1</sup> t. c). G 2 yw'r unig gopi cynnar, a Ll 133 yw cysail y 4 arall.

**A69 Fel yr oeddwn barwn bwrdd**

Englyn a briodolir i DG yn BL 14892, 58, ac i Dafydd ab Edmwnd yn LIGC 13090, 460.

**A70 Fy swydd ers llawer blwyddyn**

Mae'r cywydd hwn wrth enw DG yn ail ran Pen 57 ac yn C 7, ond fe'i priodolir hefyd i Fedo Brwynllys a Dafydd ab Edmwnd. Argraffwyd ef yn GDE, rhif XXXVII. Dengys yr arddull rwydd ei fod yn perthyn i'r 15g.

**A71 Gagog wyd leidr a gwgus (GDG t. 414)**

Englyn proest a geir yn Pen 96, 367 yn unig.

**A72 Galar ar ol mabolaeth (BDG Ychwanegiad XVI)**

Gwaith lolo Morganwg, gw. IMChY 36–42.

**A73 . . . g fanyllwallt (ll. olaf: Nid wyf drist onid ai draw)**

Yn Pen 184 (ar ôl 1606) y mae'r unig gopi, ac mae dechrau'r chwe llinell gyntaf yn fylchog. Yn ôl Thomas Parry mae'r arddull yn rhy rwydd i fod yn waith DG.

**A74 Gofal am ferch a gefais**

Yn H 26, 456, y mae'r unig gopi, ac ni cheir yno ond 12 llinell gyfan a darnau o bump arall. Nid yw enw DG wrth y darn, ond mae yng nghanol cerddi eraill o'i waith. Odlir *ame* a *ne*.

**A75 Golwyth hudnwy gwllith hednaid**

Englyn a briodolir i DG yn J 16, M 131, Ba (M) 2, a Ba 6. Gwneir *carw* a *bwrw* yn ddwy sillaf.

**A76 Gwae fab o febyd trasyth /. . . fu gu gwehelyth (BDG XCVI; DGA 5)**

Cywydd storiol yn adrodd hanes ymweliad y bardd â thŷ ei gariad liw nos. Mae tystiolaeth y llawysgrifau'n weddol gryf; ymhlith y 18 copi y mae BM 23, Gw 25, C 5, H 26 a Pen 93. Gwelai Thomas Parry iaith a chynnwys y cywydd yn ddigon tebyg i DG, ond teimlai mai dynwarediad ydyw o gerddi fel 'Tri Phorthor Eiddig' (68) a 'Caru yn y Gaeaf' (55). Cyfeirir at fersiwn arall o'r triawd 'Tri amhorth serchog' (gw. nodiadau 68). Dengys y ganran uchel o gynghanedd sain a hefyd y llinellau pengoll a digynghanedd fod hwn yn gywydd cynnar. Ond mae'r cynganeddu'n anghelfydd, gyda bron i 20% o gynghanedd lusing, a phwyslais lletchwith ar yr arddodiad yn 'Hapiodd ym gael ar ddamwain'. Ac mae'r arddull yn blaenach nag yn rhifau 55 a 68, gyda nifer o ymadroddion llanw (e.e. 'drymlais draw', 'gwae fi o'r gwall', 'ferch erfai fwyn', 'was meinlas mwyn'), a braidd ddim delweddaeth. Ac mae'r bardd yn fwy llwyddiannus wrth garu, ac yn fwy ymffrostgar nag yng ngherddi cyffelyb DG. Er iddo orfod ffoi rhag y Gŵr Eiddig nid yw'n destun gwawd o gwbl. Y tebyg yw mai gwaith un arall o feirdd y 14g. yw hwn.

**A77 Gwae fardd oferddysg edlym (BDG Ychwanegiad VII)**

Gwaith lolo Morganwg, gw. IMChY 22–3.

**A78 Gwaith anorffen sydd gennyf (BDG CLXX)**

Cywydd yn cwyno am rwystredigaeth serch yn null y 15g. Fe'i ceir wrth enw DG yn Pen 64 a 5 llawysgrif arall, ond fe'i priodolir i Fedo Brwynllys mewn 4, i Rys Goch Glan Ceiriog mewn 12 (gan gynnwys CM 5) ac i Rys Goch Glyndyfrdwy yn Wy 2.

**A79 Gwawr bryd o gaer Beredur (BDG LV)**

Cywydd serenâd sy'n debyg o fod yn efelychiad o 'Dan y Bargod'. Mae wrth enw DG yn M 212 a BL 31076, ond fe'i priodolir i Ddafydd ab Edmwnd yn BM 23 a LI 163, ac fe'i cyhoeddwyd yn GDE, rhif IV.

**A80 Gwayw o serch i'm gwywo sydd**

Cywydd am ddiodefaint serch yn null y 15g. Nid oes ond dau gopi llawysgrif, sef LIGC 1553 a G 3, a'r ail yn gopi o'r cyntaf mae'n debyg.

**A81 Gwedi dyfod a dofi (BDG CLXV)**

Cywydd am ymweliad â thŷ'r ferch liw nos, 'anghelydd drwyddo' yn ôl Thomas Parry. Odlir *care a gre', eiste a gole*. Fel A76 uchod mae'n fwy ymffrostgar na cherddi cyffelyb DG. Bl e 1 yw ffynhonnell pob copi arall.

**A82 Gweirful ferch lorwerth gerth gain (CMOC 7)**

Cywydd maswedus ar ffurf cyngor hen wraig i garwr ifanc. Fe'i ceir wrth enw DG mewn 38 o lawysgrifau, gan gynnwys H 26, llawysgrifau Llywelyn Siôn, CM 5 a BM 48, ond mae'r arddull yn gypledol yn bennaf, a'r iaith yn blaen.

**A83 Gwn ledrith yn gain lwydraf (BDG CLV)**

Cywydd am rwystredigaeth serch yn null y 15g. Odlir *unlle a banne*. C 7 yw ffynhonnell y 5 copi arall.

**A84 Haws cael afalau ar redyn**

Pennill a geir yn ddiennw ymhlith cerddi DG yn M 212, 80.

**A85 Herber o ddail gwaiail gwiw (BDG CXII; DGA 21)**

Cywydd ar thema'r deildy. Ceir ynddo adleisiau o gerddi DG, ond hefyd nifer o ymadroddion llanw fel 'fun dlyslun dlos', ac yn ôl Thomas Parry mae'n edrych fel dynwarediad 'go fusgrell.' O'r 8 copi llawysgrif M 145 a BM 32 yw'r cynharaf.

**A86 Hiraeth fydd bob dydd i'm dwyn (BDG CLXXXV)**

Cywydd am hiraeth sy'n cynnal cymeriad ar *h* drwyddo. Yr un yw'r pwnc ag 'Achau Hiraeth' (90) felly, ond mae'r arddull yn hollol wahanol. Mae llinellau fel 'Hai how! hiraeth, ow ni thyr!' yn gwbl annodweddiadol o waith DG. LIGC 9166 yw ffynhonnell y copïau eraill sy'n ei briodoli i DG. Gwaith Lewys Morgannwg ydyw yn ôl Br 6 a Tanybwllch, ac fe'i cyhoeddwyd fel ei waith ef yn GLM, cerdd 105.

**A87 Hyllais pan welais hollwyr ofer (GDG t. 415)**

Englyn unodl union a geir wrth enw DG yn M 131, 511 (a chopi yn Ba 6, 524), ac wrth enw Dafydd ab Edmwnd yn CM 381, 98. Awgryma'r odl rhwng *chwerw a dielw* nad yw hwn yn waith y naill fardd na'r llall.

**A88 Iesu dewis pris pur oes wydd (GDG t. 415)**

Englyn unodl union a geir yn C 53 (18g.) yn unig.

**A89 Iesu wyd Iesu dewisol**

Cyfes o englynion duwiol, syml eu harddull, a geir wrth enw DG mewn 4 llawysgrif o ddiwedd yr 17g. ymlaen. Ond gwaith Gruffudd Hafren ydyw yn ôl BM 51, hefyd o'r 17g.

**A90 Llafn glan o arian a'i yrru (GDG t. 415)**

Englyn unodl union a geir yn M 131, 598 (a chopi yn Ba 6, 525).

**A91 Llawen nos lau lluniais oed (BDG CLIX)**

Cywydd yn mellithio'r dylluan am darfu ar oed serch, a hynny mewn arddull rwydd a chypledol. Fe'i priodolir i Syr Siôn Leiaf yn Gw 25 a Bl e 1, ac i Robin Leiaf yn Pen 76 a BM 31. Llawysgrifau diweddarch sy'n ei roi i DG, a dywedir yn H 26, 1 'Robert ap Gruffith Leiaf yd yr ydis yn tybiaw, rhai a ddywaid mai D. ap Gwilim.'



**A92 Llawen ydwyf a llewych**

Ni cheir ond dau gopi o'r cywydd di-nod hwn, sef Bl e 8 ac A 2, a'r ddau'n perthyn yn agos.

**A93 Lluniais fynd draw yn llawen (DGA 8)**

Darn am gi ffyrnig sy'n ddienw yn Pen 99, ffynhonnell y copi yn G 3 lle cydiwyd ef wrth 'Y Dylluan' (61).

**A94 Lluniais oed ddywllun ys hir (BDG LII; DGA 26)**

Cywydd syml a chypledol a geir wrth enw DG yn llawysgrifau Llywelyn Siôn, ac yn ddienw yn BM 48. Awgryma'r cyfeiriad at lunio oed yn Llandaf mai bardd o Forgannwg oedd yr awdur.

**A95 Lluniais oed mewn mangoed Mai (BDG CLI; DGA 49/50)**

Cywydd ymddiddan rhwng bardd o'r enw Dafydd a merch. Mae'r rhan olaf yn debyg i 'Bargeinio' (142). Odlir *oeda'* a *da, hy a genny'*. Fe'i ceir wrth enw DG yn Pen 99, Ll 120 a M 212, ac fel dwy gerdd yn H 26.

**A96 Lluniais oed yn y goedallt (CMOC 13)**

Cywydd maswedus am ymgais aflwyddiannus y bardd i dreisio merch. Mae'r arddull yn blaen a chypledol yn bennaf. Bl e 1 yw ffynhonnell y copi'au eraill.

**A97 Mae adail manddail i mi (BDG Ychwanegiad V)**

Gwaith lolo Morganwg, gw. IMChY 19–21.

**A98 Mae addo oed hoed hydrserch (BDG CXXIX)**

Yn ôl Thomas Parry 'y mae naws hynafol ar arddull y cywydd hwn', ond eto, meddai, 'teimlir fod rhywbeth peiriannol ac anghyfrwys yn ei adeiladwaith, a bod holl safon y gerdd yn is na chynnyrch arferol DG.' Mae symudiad y cywydd yn gypledol, i raddau am fod yr enw 'Dywsadwrn' yn cael ei ailadrodd ymhob cwpled. Odlir *nesa'* a *da*. Ond mae tystiolaeth y llawysgrifau'n weddol gryf, gan gynnwys Ll 6, Pen 99, C 7, M 129 a M 146.

**A99 Mae ci gennyt ti Ifan Tew**

Ceir yr englyn hwn ymysg cerddi DG yn C 64, ond gwaith Cadwaladr Cesail ydyw.

**A100 Mae dolur drwg i'm dal draw (CSTB XLI)**

C 64 yn unig sy'n rhoi'r cywydd hwn i DG. Fe'i cyhoeddwyd fel gwaith Bedo Aeddren yn CSTB ar sail tystiolaeth Pen 76.

**A101 Mae dyn a wisg amdani**

Priodolir y cywydd hwn i Lawdden mewn dwy lawysgrif gynnar, Pen 55 a BM 24 (ond nis derbyniwyd yn GLL), ac i Ddafydd ab Edmwnd yn C 5 (gw. GDE rhif XVI). Yr awgrym cynharaf mai gwaith DG ydyw yw'r nodyn yn Ll 133, 'I. Dyfi ne D. ab G.' Mae'n amlwg yn waith un o feirdd y 15g.

**A102 Mae gair i mi o gariad (BDG XLIV; DGG<sup>2</sup> XLVII; DGA 44; GMRh 24)**

Cywydd y Daran. Fe'i priodolir i Fedo Brwynllys yn y copi cynharaf, BM 24, ac i Faredudd ap Rhys mewn nifer o lawysgrifau eraill, gan gynnwys BM 23, ac fe'i cyhoeddwyd fel ei waith ef yn GMRh. Mae cyfartaledd y gynghanedd sain tua 10%.

**A103 Mae gŵr ymwasgwr i'n mysg (GDG t. 418)**

Englyn unodl union a briodolir i DG yn M 131, 622, ond gw. PWDN t. 113.

**A104 Mae un iarllles mewn eurllin (BDG XXXV)**

Cywydd gwallt a briodolir i DG gan Lewys Morris, ond i Ddafydd ab Edmwnd yn y llawysgrifau cynharaf. Fe'i cyhoeddwyd fel ei waith ef yn GDE, rhif XXIII.

**A105 Mawr yw cadair dêr mawr yw coed (GDG t. 416)**

Englyn unodl union i Forfudd a geir yn LIGC 1578 (diwedd yr 16g.) a Ba 6.

**A106 Mawr yw gweinieth gwyr Gwynedd**

Englyn a briodolir i DG yn Ba(M) 6, 30v.

**A107 Mawr yw'r drafel na'th welwn**

Nid oes ond dau gopi o'r cywydd hwn, sef H 26 a M 212, a'r rheini o'r un gynsail mae'n debyg. Mae'r arddull yn gypledol, ac efallai iddo gael ei briodoli i DG am fod enw Morfudd yn yr ail linell.

**A108 Meddyliaid am addoli**

Dim ond Pen 93 a Br 1 sy'n priodoli'r cywydd crefyddol hwn i DG, ac mae'r dystiolaeth yn gryfach o lawer o blaid Siôn Cent, er ei fod yn cael ei briodoli i nifer o feirdd eraill hefyd, gw. ASC t. 17, IGE<sup>2</sup> LXXXIV.

**A109 Mi a gerddais wyth milltir (BDG CLVIII; DGA 6)**

Cywydd digrif am helynt y bardd yn ceisio osgoi gwrach a oedd yn gwylio'r ferch. Mae llinellau cyntaf y rhan fwyaf o'r cwpledi'n ddigynganedd, ac felly mae'n debyg ei fod yn gywydd cynnar, ond mae'r arddull yn blaen iawn ac odli'r ffurf lafar *tynges â cyffes*. Fe'i priodolir i DG yn C 7, H 26 a llawysgrifau cylch Iago ab Dewi, ond mae'n debyg bod cynsail gyffredin i'r rhain i gyd gan fod rhywbeth yn eisiau ar ôl ll. 3 a ll. 50 ym mhob copi.

**A110 Mi a wnaaf ag a wnaaf (BDG CXCII)**

Traethodl am y ceiliog rhedyn a'r grugionyn. Mae'n debyg mai Bl e 1 yw cynsail y 12 copi arall.

**A111 Mi fedraf i ystafell (BDG CCIV)**

Cywydd mawl i'r das wair fel lle da i garu. Mae'r arddull yn llyfn a chypledol. Fe'i priodolir i DG yn llawysgrifau Llywelyn Siôn a M 212.

**A112 Milain o Dduw mil âi'n ddig**

Marwnad i Syr Owain ap Gwilym, y bardd-offeiriad o'r 16g., a gynhwysir ymysg cerddi DG yn C 64.

**A113 Moddus galanmai addwyn (BDG Ychwanegiad IV)**

Gwaith lolo Morganwg, gw. IMChY 18–19.

**A114 Moes un cusan i'm hannerch / Moes gusan y gain feinferch (BDG LXXXVI; DGA 3)**

Cywydd syml yn gofyn am ugain o gusanau. Nid oes dim o nodweddion arddull DG arno. M 144 yw'r cynharaf o 19 copi llawysgrif, ac mae'n ddiennw yn BM 55.

**A115 Morfudd deg wenddydd Duw gwyn (GDG t. 415)**

Englyn unodl union i Forfudd a geir yn LIGC 1578 (diwedd yr 16g.), BL 14990 a BL 15003.

**A116 Mwdran mwllgamlan mwllgymale (GDG t. 417)**

Englyn unodl union a geir yn M 131, Ba 6 a CM 381.

**A117 Mwynddyn dyred i'r manddail (BDG LXXXIII; DGA 22)**

Cywydd unodl i'r deildy, mewn arddull llyfn a chwpledi cryno. O'i gymharu ag 'Y Deildy' (37) mae hwn braidd yn ddigyfeiriad, heb ddatblygu thema glir fel y cyferbyniad ag anheddau dynol. Fe'i priodolir i DG yn Ll 6 a llsgrau Llywelyn Siôn (o Lyfr Wiliam Mathew efallai), M 146 a Bl e 1, ond i Ddafydd ab Edmwnd yn G 4 (Wiliam Middleton), ac mae'n debycach i'w waith ef.

**A118 Ni chysgaf nid af o dŷ (BDG CCV; DGG<sup>2</sup> XLI; DGA 41; OBWV 65)**

Cywydd yr Eira. Gw. trafodaeth D. J. Bowen a Thomas Parry yn LIC vi (1960–61), 44–5 a 176–8, a LIC vii (1962–3), 193–205. Mae'r arddull yn gypledol, a nifer o ddelweddau trawiadol yn llenwi cwpled. Mae ansawdd y dyfalu yn llai gweledol ac yn fwy ffansiol nag eiddo DG. Isel yw canran y gynganedd sain (tua 16%). Fe'i priodolir i DG yn nhraddodiad y Vetustus, ond i Ieuan ap Rhys ap Llywelyn yn BM 23 (y copi cynharaf) a M 147, ac i Ddafydd ab Edmwnd yn BM 48 a C 27.

**A119 Nid oes ddychymyg ym Môn (BDG CLXXXV)**

Traethodl yn adrodd stori ddirgrif yn null y *fabliau*, mewn iaith ac arddull syml iawn. C 5 yw'r copi cynharaf, a H 26 yw cynsail y lleill.

**A120 Nos da i'r fernos dawel (BDG CXI)**

Breuddwyd felys am ferch, a'r siom o ddihuno yw pwnc y cywydd hwn. Mae'r iaith yn syml, a phrin yw'r geiriau cyfansawdd. Mae wrth enw DG mewn 17 o lawysgrifau (nifer ohonynt yn tarddu o Bl e 1), ond fe'i priodolir i Fedo Brwynllys yn BM 24, i Gutun Ceri yn LIGC 1553 a BM 29, ac i Lewys Glyn Cothi yn CM 31 (oherwydd cymysgu â'i gywydd gofyn gwely, GLGC 186, efallai).

**A121 Ni syrthiodd deigr disyrthach (GDG t. 417)**

Englyn proest a geir yn M 131, 678.

**A122 O daw terfysg ymysg myrdd**

Englyn proest a briodolir i Ddafydd ap Gwilym yn Pen 44, 94 (ff. 48v) gan law o'r 15g. neu'r 16g. yn ôl Huws, *Repertory*. Honnir yn RMWL, i, 379 mai dalen grwydr o Pen 52 yw hon, ond ni dderbynnir hynny gan Huws. Mae'r englyn yn fersiwn o un sy'n dechrau 'Pan ddêl terfysg ...' a briodolir i Ddafydd ab Edmwnd mewn naw llawysgrif, gw. GDE t. 128. Mae'n debyg, felly, fod hon yn enghraifft gynnar o gymysgu rhwng y ddau Ddafydd, a hynny yn ystod oes Dafydd ab Edmwnd neu'n fuan wedyn.

**A123 Oed â'm rhain addfeindeg (BDG XXXIX; DGG<sup>2</sup> XXXIX; DGA 43)**

Cywydd ar yr un thema ag 'Y Niwl' (rhif 57). Mae arddull y dyfalu yn llai cywasgedig na chywydd DG. Gw. GDG<sup>1</sup> c, lle nodir y ffurfiau amheus *mynd* ac *eira*, a'r symudiad cypledol. Fe'i priodolir i DG mewn 45 o lawysgrifau, gan gynnwys Pen 66, H 26 ('D ab Glm meddantwy a thebig mae gwir') a Ll 120, ond i Siôn ap Hywel yn LIGC 1246 (Rhys Jones o'r Blaenau), ac ar sail y copi hwnnw cyhoeddwyd testun yn GSH, *atodiad i* (trafodir awduraeth y cywydd tt. 179–80). Awgryma nifer o gyfatebiaethau geiriol mai dynwarediad o rif 57 yw hwn.

**A124 Oer yw genni' gregynna y gwanwyn**

Englyn a briodolir i DG yn BL 14876 a Ba 6. 'Englyn a wnaeth D a'b Gwilym wrth gregynna efo ei Fam' yw'r teitl a roddir iddo yn Ba 6. Priodolir fersiwn arall i Rys Goch Eryri (yr esgyll) a Dafydd Nanmor (y paladr), gw. Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Rhys Goch Eryri*, t. 37.

**A125 Ond pechod ddefod wiw ddyfyn**

Englyn crefyddol a briodolir i DG yn Pen 313, 120 (testun bylchog).

**A126 Pam na ddeilia y llwyn**

Pennill carbwl a briodolir i DG yn LIGC 9166, 149.

**A127 Pell y cerddais i geisiaw**

Nid oes ond dau gopi o'r cywydd hwn, sef M 146 a M 212, a chyswllt agos rhyngddynt.. Nododd Thomas Parry y ffurfiau llafar *treigil* ac a '*nhad*.

**A128 Pob rhyw brydydd dydd dioed (CMOC 5; GGM 9)**

Cywydd y Cedor (neu'r Gont), gwaith Gweirful Mechain. Oherwydd ei gysylltu â Chywydd y Gal y priodolir ef i DG mewn rhai llawysgrifau (gw. ymhellach nodiadau rhif 85).

**A129 Prydydd i Forfudd f'eurferch (BDG Ychwanegiad II)**

Gwaith lolo Morganwg, gw. IMChY 14–16.

**A130 Pwy yw'r gŵr piau'r goron (BDG CCXLII; DGG<sup>2</sup> LXXVII; DGA 51)**

Ceir y cywydd crefyddol hwn wrth enw DG mewn 18 o lawysgrifau, ond fe'i priodolir i Ruffudd Gryg mewn 30, ac fe'i cyhoeddwyd fel gwaith Gruffudd yn DGG<sup>2</sup>.

**A131 Rhodiais er pan welais wen (= Ceres fileines luniaidd, CMOC 9)**

Cywydd maswedus sy'n cynnwys disgrifiad graffig o gyfathrach rywiol. Mae'r arddull yn syml a chypledol, a cheir ynddo ffurfiau llafar fel *ceres* a *plygen*. Fe'i priodolir i DG ym mhob un o'r 15 copi, gan gynnwys Pen 73 a M 212.

**A132 Rho Duw hael rhadau helynt (BDG CXXXIX; GIG XXXII)**

Cywydd mawl i'r delyn rawn a dychan i'r delyn ledr. Fe'i priodolir i DG yn y Vetustus, ond mae wrth enw lolo Goch yn y llsgr. hynaf, BM 24, ac yn M 147 a J 15. Derbyniwyd ef fel gwaith lolo, gw. GIG t. 349.

**A133 Rhych gnych wrych wlych nych drych drist (GC 12)**

Englyn proest o eiriau unsill. Mae tystiolaeth y llawysgrifau'n gryfach o blaid Casnodyn, ac fe'i derbyniwyd fel ei waith ef yn GC.

**A134 Soniais feinwar am garu (BDG XCVII)**

Gwawrgan debyg i 'Y Wawr' (69), ond gyda'r gwahaniaeth mai'r bardd ei hun sy'n gweld arwyddion y wawr, a'r ferch yn eu gwadu. Mae'r arddull yn rhugl, a llai o dorymadroddi nag yn rhif 69. Odlir *cyrredd* ac *unwedd*. Fe'i ceir wrth enw DG yn BM 29, Bl e 1 a Pen 66, ac felly mae'r dystiolaeth rywfaint yn wannach nag yn achos rhif 69 a geid yn y Vetustus a Llyfr Wiliam Mathew.

**A135 Torth foelgron dirion dyred (GDG t. 418)**

Englyn unodl union am dorth o fara gwyn. Mae'r unig gopi i'w gael fel enghraifft o'r gair *coesed* yng ngeiriadur Thomas Wiliems, H 26, 125.

**A136 Trugarog frenin wyt tri cyffredin (BDG CCXLV)**

Er bod nifer o lawysgrifau o ail hanner yr 16g. ymlaen yn priodoli'r awdl gyffes hon i DG, gwaith Llywelyn Fychan ap Llywelyn Foelrhon ydyw yn ôl y ddwy gynharaf, C 7 a Ll 181, ac fe'i cyhoeddir fel ei waith ef yn *Gwaith Madog Benfras ac Eraill*, cerdd 10.

**A137 Trymluog oediog ydwyf (BDG CCXXV)**

Cywydd syml heb ddim o nodweddion arddull DG. G 2, BL 14965 a C 19 yw'r llawysgrifau cynharaf.

**A138 Tydi'r dylluan tydwyll (BDG CLXXXIII; DGA 33)**

Cywydd ymddiddan â thylluan sy'n dechrau yn debyg i 'Y Dylluan', gan gyfeirio wedyn at chwedl Blodeuwedd. Mae'r arddull yn llac, gyda nifer o ymadroddion llanw. Fe'i ceir wrth enw DG yn Pen 76, ond gwan yw'r dystiolaeth fel arall.

**A139 Tydi'r gwynt tad eiry ac od (GMRh 14)**

Mae tystiolaeth y llawysgrifau'n gryf o blaid awduraeth Maredudd ap Rhys, ac fe'i cyhoeddwyd fel ei waith ef yn GMRh. Oherwydd cymysgu ag 'Y Gwynt' (rhif 47) y priodolwyd ef i DG mewn ychydig lawysgrifau.

**A140 Tydi yr haf tad y rhwys (BDG Ychwanegiad XIV)**

Gwaith lolo Morganwg, gw. IMChY 29–36.

**A141 Un dyn nid oedd ond ni'n dau**

Nid oes ond un copi o'r cywydd hwn, yng nghasgliad Lewys Morris, BM 53.

**A142 Un nos ar bymtheg wiw ennain (GDG t. 417)**

Englyn unodl union am y cyfnod y bu Crist yng nghroth Mair. Fe'i ceir wrth enw DG yn M 161, Ll 16, CM 381, BM 53 a Ba 6, ond mae llawysgrifau eraill yn ei briodoli i Ddafydd Nanmor, ac fe'i ceir yn ddiennw hefyd.

**A143 Y bilain o fabolaeth (BDG Ychwanegiad XV)**

Cwyn am fyrhoedledd ieuencid a geir wrth enw DG yn llawysgrifau Llywelyn Siôn a rhai eraill o'r 17g., ond a briodolir hefyd i Siôn Cent mewn dwy lawysgrif ac i lolo Goch mewn un.

**A144 Y ceiliog mwyalch balchbwyll (BDG CXXX; DGG<sup>2</sup> XXVIII; DGA 35)**

Cywydd yn anfon y ceiliog mwyalch yn llatai. Mae'r arddull yn llyfn a chypledol, ac mae'n cynnwys un llinell a geir hefyd yn y cywydd ansicr ei awduraeth i'r ceiliog bronfraith, 'Awdur cerdd adar y coed' (= 159.24). C 7 yw cynsail y 9 copi arall.

**A145 Y dlosa ferch daliesin (DGA 10)**

Cywydd serch byr a geir yn BM 48, 172v yn unig. Gwelai Thomas Parry grefft y cywydd 'yn debyg weithiau i eiddo DG', ond teimlai 'nad yw o'r un ansawdd na safon â'i waith ef.' Tebyg mai ansoddair yw *daliesin* yn y llinell gyntaf, ac nid enw priod fel y deallwyd ef yn DGA.

**A146 Y dydd o wynfyd Eiddig (BDG CI; CSTB XXXV)**

Cywydd yn cwyno am orfod rhoi'r gorau i garu yn ystod cyfnod y Grawys. Mae'r arddull syml yn nodweddiadol o ganu serch y 15g., gyda llai na 10% o gynghanedd sain. Mae wrth enw DG yn Ll 6, ond fe'i priodolir hefyd i Fedo Aeddren ac fe'i cyhoeddwyd fel ei waith ef yn CSTB.

**A147 Y dylluan lân liwnos**

Nid oes ond 4 copi, un gan Rys Jones o'r Blaenau (LIGC 1246). Fe ymddengys fod dau gwpled olaf 'Y Dylluan' (61) wedi'u cydio wrth gywydd arall ar yr un testun, a hwnnw'n waith Siôn Tudur neu Siôn Rhosier.

**A148 Y ddyn a'm newidiodd ddoe (BDG CCXX)**

Cywydd syml sydd wrth enw DG yn llawysgrifau Llywelyn Siôn, ond Elys Gwynn yn BM 30, ac sy'n ddiennw yn C 7 a Pen 112.

**A149 Y ddyn a wisg addwyn wen (BDG Ychwanegiad XI; DGA 16)**

Cywydd i Eiddig sydd wrth enw DG yn un o lawysgrifau Llywelyn Siôn a chan Rys Jones o'r Blaenau yn LIGC 1246, ond Huw Llwyd yn Pen 76, ac sy'n ddiennw yn BM 24.

**A150 Y ddyn fegis Gwen o'r Ddôl (BDG CXCI)**

Ymddiddan rhwng y bardd a gwraig briod. Mae'r cyfeiriad yn y llinell gyntaf at Wen o'r Ddôl, a oedd yn adnabyddus fel cariad Dafydd Nanmor, yn awgrymu mai gwaith bardd o'r 15g. yw hwn, ac mae arddull y cywydd yn gyson â hynny. Fe'i ceir wrth enw DG mewn nifer o lawysgrifau, gan gynnwys BM 24, ond awgrymir yn H 26 mai gwaith Rhys Pennardd ydyw.

**A151 Y ddyn fwyn addfwyn faenawl (BDG XCIV; CSTB XX)**

Mae'r cywydd hwn yn ddiennw yn y copi cynharaf, BM 24, ac fe'i priodolir mewn llawysgrifau eraill i Fedo Brwynllwys ac i Fedo Phylib Bach. Cyhoeddwyd ef fel gwaith Bedo Brwynllys yn CSTB.

**A152 Y ddyn lwys baradwysliw (CSTB XXXVII)**

Mae wrth enw DG yn C 7, ond fe'i priodolir mewn llawysgrifau eraill i Fedo Brwynllys, Dafydd Nanmor a Gruffudd ab Ieuan. Fe'i cyhoeddwyd fel gwaith Bedo Brwynllys yn CSTB.

**A153 Y ddyn oedd ddoe'n yr eglwys**

Darn 18 llinell a geir yn C 5 a BL 15030 yn unig.

**A154 Y ddyn y bûm ddoe'n ei bad**

Mae'n debyg mai camgymeriad gan Lywelyn Siôn yw'r priodoliad i DG yn MT, 540, gan mai Ieuan Rhaeadr yw'r awdur yn ôl un arall o'i lawysgrifau, Ll 134, 513.

**A155 Y fedwen las anfadwallt (BDG CLX; DGG<sup>2</sup> LXV; OBWV 54)**

Gwaith Gruffudd ab Adda ap Dafydd, gw. DGG<sup>2</sup>, t. xcii.

**A156 Y feiol ar ei fwa**

C 64 yn unig sy'n priodoli'r cywydd hwn i DG; fe'i ceir yn ddiennw yn M 130. Yn ôl Thomas Parry y mae'r iaith a'r cynnwys yn wahanol i eiddo DG.



**A157 Y ferch a fûm i'w herchi (BDG Ychwanegiad VIII)**

Cywydd yn cwyno am y Gŵr Eiddig. Fe'i ceir yn ddiennw yn Ll 6, Pen 83, C 26 a dwy o llawysgrifau Llywelyn Siôn (Ll 134 a C 5.44), ond awgrymir enw DG ganddo yn IAW 4. Gw. ymhellach *Y Beirniad* viii (1919), 157.

**A158 Y ferch a gerais yn faith**

Yr unig gopi sy'n rhoi hwn i DG yw J 12, ac awgrymir enw Deio ab Ieuan Du hefyd. Mewn llawysgrifau eraill fe'i priodolir i Ddeio, i Fedo Brwynllys ac i Fedo Aeddren. Cyhoeddwyd testun yn GDID, Atodiad A4.

**A159 Y ferch â'r ael winau fain**

Yr unig awgrym mai DG yw'r awdur yw'r nodyn yn H 26, 455, 'Robert ap Gr. Ieaf neu D. ap Glm.' Yn ôl y copi hynaf, BM 24, gwaith Bedo Aeddren ydyw, ac mae llawysgrifau eraill yn ei roi i Fedo Brwynllys ac i Ieuan Dyfi.

**A160 Y ferch a wnaeth gwayw dan f'ais (BDG CXVIII; DGG<sup>2</sup> XXI; DGA 23; BU 35)**

Priodolir y cywydd hwn i Robin Ddu yn y copi cynharaf, Pen 76. C 7 a H 26 yw cynseiliau'r copïau niferus sy'n ei roi i DG, ac yn y fersiynau hynny yn unig y ceir y cwpled sy'n enwi Morfudd o'r cywydd 'Talu Dyled' (99.51–2), a hefyd gwpled olaf yr un cywydd. Mae'r arddull yn nodweddiadol o ganu serch disgrifiadol y 15g.

**A161 Y ferch dawel wallt felen / Y fun ... (BDG LVI; DGG<sup>2</sup> XXIII; DGA II; OBWV 62)**

Mae tystiolaeth y llawysgrifau'n weddol gryf, gan gynnwys BM 24, Pen 76 a C 7 (llawysgrifau sydd oll yn cambriodoli cerddi i DG, fodd bynnag). Ond mae'r iaith yn syml, ac mae'r cwpledi cryno a thrawiadol (e.e. 'Gwell bedd a gorwedd gwirion / Na byw'n hir yn y boen hon') yn wahanol iawn i ddull DG.

**A162 Y ferch dda'i chwedl ddiledlyth (DGA 9)**

Priodolir y cywydd hwn i DG yn Pen 76 a C 7 o'r 16g., a dwy llawysgrif ddiweddarach, ac mae'n amlwg mai un gysail oedd tu ôl i'r pedwar copi. Ond dywedir yn C 7 'nid Daid ap gwillim ai kant *er daed y gerdd*', a'r geiriau a italeiddiwyd wedi'u hychwanegu gan law ddiweddarach. Mae arno rai o nodweddion crefit y cywyddau cynnar, sef geiriau cyfansawdd, torymadroddi, cymeriad estynedig a chanran weddol uchel o gynghanedd sain. Ond o ran strwythur mae'n gerdd ddiddatblygiad ac anarbennig, ac mae'n fwy tebyg o fod yn waith un arall o'r Cywyddwyr cynnar. Mae rhethreg y cyferbyniad rhwng gwasanaeth y bardd a dihidrwydd y ferch, 'gwneuthum . . . gwnaethost', yn dwyn i gof awdl gyffes Llywelyn Goch ap Meurig Hen (GLIGMH 7), ac mae'r dull herfeiddiol o gyfarch y ferch yn debyg i 'Dewiniaeth' (GLIGMH 11), cywydd arall a briodolir i DG mewn rhai llsgrau (A164).

**A163 Y ferch fach dda ei hachen (BDG CLXVI)**

Cywydd sy'n cynnwys llythrennau enw'r ferch (sef Hunydd mae'n debyg), a hynny mewn cwpled a geir hefyd yn 'Yr Alarch' (A194 isod). Ll 14 neu Ll 133 yw cysail y tri chopi arall. Mae'r arddull yn annhebyg iawn i eiddo DG.

**A164 Y ferch lygad ruddell fain (BDG CXLIII; DGA I; GLIGMH II)**

Derbyniwyd y cywydd hwn yn waith Llywelyn Goch ap Meurig Hen ar sail y priodoliad iddo yn rhan gyntaf Pen 57, gw. GLIGMH t. 93.

**A165 Y ferch mae rhom anerchion (BDG CCXXII; CSTB XXXVIII)**

Priodolir y cywydd hwn i DG yn Ll 6 a llawysgrifau Llywelyn Siôn (o Lyfr Wiliam Mathew efallai), ond yn ôl Pen 76 Bedo Brwynllys yw'r awdur, ac fe'i cyhoeddwyd fel ei waith ef yn CSTB.

**A166 Y ferch ni chwsg a'i gwerchyd (BDG XC)**

Cywydd yn cwyno am Ŵr Eiddig o ardal Is Conwy. Ychwanegwyd enw Hywel Rheinallt ar ôl enw DG ar ddiwedd y copi yn C 7, ac yn C 19 ceir 'Incerti Authoris' (awdur anhysbys).

**A167 Y ferch o'r fynachlog faen (BDG XII; DGA 17)**

Cywydd i leian (gw. Fulton, 1991) mewn arddull gypledol yn bennaf. Fe'i ceid wrth enw DG yn y Vetustus, ond fe'i priodolir i Fedo Brwynllys yn BM 36 a chan Lywelyn Siôn, ac i Hywel Dafy yn BM 48, ac mae'n ddienw yn CM 22 a LI 122.

**A168 Y ferch wen fawr ei chynnydd (BDG Ychwanegiad X)**

Cywydd di-nod yn null canu serch y 15g. Llawysgrifau Llywelyn Siôn yw'r unig ffynhonnell.

**A169 Y ferch wychaf o'r chwechant**

Ceir y cywydd hwn wrth enw DG yn LI 49 a BL 14966, ond wrth enw Ieuan Deulwyn yn C 12, ac yn ddienw yn CM 5. Dengys yr arddull rugl ei fod yn waith y bardd o'r 15g. (ond nodir dau gywydd arall â'r un llinell gyntaf wrth enwau Siôn Ceri, Siôn Tudur a Robin Ddu yn Maldwyn). Sylwer fod y llinell gyntaf yn gynghanedd groes o gyswllt.

**A170 Y ferch wyl fawr ei chelwydd (BDG CLXVII)**

Cywydd byr a syml. Llawysgrifau Samuel Williams yw'r ffynhonnell gynharaf.

**A171 Y fun addfwyn fwyneiddwen**

Fe'i priodolir i DG yn LIGC 552 a BM 53 (yr ail yn gopi o'r cyntaf), ond mae'n ddienw yn y testunau cynharaf, C 7 a Pen 112. Yn ôl Thomas Parry y mae'r cynnwys a'r mynegiant yn debycach i Ddafydd ab Edmwnd neu Ddafydd Nanmor.

**A172 Y fun a elwir f'annwyl (BDG LXXX)**

Gwaith lolo Morganwg, gw. IMChY 11–13.

**A173 Y fun a gaid fwyna'i gwedd (GID XV, GSC 58)**

Enw DG a roddwyd wrth y cywydd hwn yn wreiddiol yn C 7, 635, ond dilewyd y priodoliad a rhoi enw Siôn Ceri yn ei le, ac fe'i cyhoeddwyd fel ei waith ef yn GSC. Yn Pen 76 fe'i priodolir i 'arai hian', ac yn C 49 i Ieuan Deulwyn.

**A174 Y fun alawlun liwlwys (BDG Ychwanegiad IX)**

Gwaith lolo Morganwg, gw. IMChY 23–5.

**A175 Y fun araf fain eirian (BDG CLXIII)**

Bl e 1 a LIGC 560 yw'r ffynonellau cynharaf. 'Y mae'r arddull yn rhwydd, y farddoniaeth yn sâl' oedd dyfarniad Thomas Parry.

**A176 Y fun a'r gwallt o fanaur (BDG VII)**

Cywydd i wallt merch yn null y 15g. sy'n cynnwys cwpled a geir hefyd yng nghywydd enwog Dafydd Nanmor i wallt Llio ('Crwybr o aur pan i cribai, / Pwn mawr o esgyll paun Mai'). Bl e 1 yw cysail y copïau eraill.

**A177 Y fun a'r wisg fanaur wych**

Darn byr o 14 llinell a geir yn H 26, 383 yn unig. Yn ôl Thomas Parry nid yw'n debyg i DG nac yn deilwng ohono.

**A178 Y fun a wnaeth fwy na neb (BDG CCXXIII)**

Cywydd byr yn cwyno am greulondeb merch yn null y 15g. Fe'i priodolir i DG mewn 12 copi o ddechrau'r 17g. ymlaen (Pen 112, Wy 2 a JGE II, 1 yw'r cynharaf), ond gwaith Hywel Aerddrem ydyw yn ôl Pen 76 a C 7.

**A179 Y fun bach fwyna'n y byd (BDG CLXVIII)**

Cywydd byr a di-nod. Llawysgrifau Llywelyn Siôn yw ffynhonnell pob copi.

**A180 Y fun hoywddoeth fonheddig (CSTB XL)**

Ceir y cywydd hwn wrth enw DG mewn dau gopi, ond fe'i priodolir i Fedo Aeddren mewn naw, a hefyd i Robin Ddu a Sypyn Cyfeiliog, ac fe'i cyhoeddwyd fel gwaith Bedo yn CSTB.

**A181 Y fun loywllun fal lili (BDG XXXII; DGG<sup>2</sup> XIX; DGA 25; OBWV 61)**  
 'Claddu'r Bardd o Gariad' yw teitl y cywydd hwn yn OBWV. Fe'i ceir wrth enw DG mewn 11 o llawysgrifau o ddechrau'r 17g. ymlaen, ond awgryma'r arddull lyfn a'r ganran isel o gynghanedd sain (tua 14%) mai gwaith bardd o'r 15g. ydyw.

**A182 Y fun uchel o fonedd / . . . addwyn o Wynedd (BDG CLVI; DGG<sup>2</sup> LXXIII; DGA 15)**

Priodolir y cywydd hwn i DG mewn 10 llawysgrif, i Ruffudd Gryg mewn 12, a hefyd i Fedo Brwynllys ac i Fedo Aeddren. Bedo Aeddren yw'r awdur yn ôl y copi hynaf, Pen 76. Fe'i cyhoeddwyd fel gwaith Gruffudd Gryg yn DGG<sup>2</sup> ond gw. GDG<sup>1</sup> lxxxi. Mae'r arddull gypledol (e.e. 'Beth a dâl anwadolu / Wedi'r hen fargen a fu?') yn nodweddiadol o ganu'r 15g.

**A183 Y fun well ei llun a'i lliw (BDG XLVII; DGG<sup>2</sup> XLV; DGA 24; OBWV 63)**

Cywydd mawl i'r llwyn banadl. Fe'i priodolir i DG mewn 15 llawysgrif, gan gynnwys C 7, ond i Robin Ddu yn Gw 25, M 163 a C 49, ac i Syr Dafydd Owain yn Br 5. Dengys y symudiad cypledol a'r ganran isel o gynghanedd sain (tua 14%) ei fod yn waith un o feirdd y 15g.

**A184 Y fun wyl yw fy nolur (CSTB XXV)**

H 26 yn unig sy'n rhoi'r cywydd hwn i DG; fe'i priodolir i Fedo Brwynllys mewn chwe llawysgrif, ac i 'Airaihian' yn Pen 76. Fe'i cyhoeddwyd fel gwaith Bedo yn CSTB.

**A185 Y fwyalchen awenawl (BDG Ychwanegiad XIII)**

Gwaith lolo Morganwg, gw. IMChY 27–9.

**A186 Y gog las ar gogail ir**

Fe'i ceir wrth enw DG mewn dwy lsg. gynnar, BM 23 a BM 24, ond yn BL14994 (Owain Myfyr a Hugh Maurice) fe'i priodolir i Wiliam Llŷn. Dyfynnir cwpled o'r cywydd yng ngeiriadur John Davies d.g. *achen*, a'i briodoli i DG. Argraffwyd testun BM 23 gan G. J. Williams yn IMChY t. 10. Awgryma'r arddull gypledol a'r ganran isel o gynghanedd sain (tua 14%) ei fod yn ddiweddarach na chyfnod DG, ond eto gellir cytuno â Thomas Parry ei fod yn edrych yn hŷn na chyfnod Wiliam Llŷn.

**A187 Y gynilferch ganolfain / Yr anwylferch . . . (DGA 45; CMOC 15)**

H 26 yw ffynhonnell gynharaf yr ymddiddan maswedus hwn rhwng mab a merch. Mae'n gywydd llac o ran iaith a mydryddiaeth (e.e. yr odl *celadwy / wy*, a'r sillgolli yn *megis oddi tan 'mogel*). Awgrymir yn CMOC tt. 14–15 y gallai fod yn waith merch.

**A188 Y lleian ddoeth a'i lliw'n dda (BDG IX; DGA 20)**

Cywydd i leian (gw. Fulton, 1991) a briodolir i DG yn BM 24 a H 26, ond i Fedo Brwynllys yn M 129, BL 14966 a C 49. Mae'r arddull syml yn debycach o lawer i waith Bedo nag i eiddo DG.

**A189 Y llwyn bedw diannedwydd (BDG LXXVIII; DGG<sup>2</sup> XLIII; DGA 27)**

Cywydd mawl i'r llwyn bedw sydd wrth enw DG ym mhob un o'r 30 copi llawysgrif. Ond nid oedd yn y Vetustus na Llyfr Wiliam Mathew. C 7 yw'r testun cynharaf, a ffynhonnell y copi yn G 3 mae'n debyg, a bu Bl e 1 yn ffynhonnell i nifer o gopiau eraill. Mae'n gywydd celfydd gyda chanran uchel o gynghanedd sain a chymeriad estynedig, ond prin yw'r torymadroddi, ac ym marn Thomas Parry mae'r mynegiant yn 'llawer rhy lithrig i fod yn gynnyrch neb yn y 14 g.' Cynhwysir pedair llinell o'r cywydd 'Y Deildy' (37.9–12 = DGA 27.27–30), arwydd o ddylanwad gwaith DG naill ai ar y cyfansoddiad gwreiddiol neu ar drosglwyddiad y gerdd, a cheir enw Morfudd yn y llinell olaf mewn rhai testunau.

**A190 Y mae rhyw amwynt i'm rhwymaw**

Pen 82 yn unig sy'n priodoli hwn i DG. Fe'i ceir mewn llawysgrifau eraill wrth enwau Bedo Brwynllys (BM 23), Bedo Aeddren, Ieuan Deulwyn (LI 6), Maredudd ap Rhys, Hywel Dafi a Hywel Heilyn.

**A191 Y mae ym dwlc mi a'm dyn**

Cywydd byr ar thema'r deildy a geir mewn dau gopi yn unig, sef H 26 a M 212, a'r ddau'n tarddu o'r un gynsail mae'n debyg. Dilewyd rhai llinellau yn nhestun H 26 oherwydd y cynnwys maswedus.

**A192 Ym mhedrain rhain yn rhiw (GDG t. 417)**

Englyn unodl union am ferch o Langollen a geir yn M 131 (a chopi yn Ba 6).

**A193 'Y mun gain hoyw emen goeth (BDG Ychwanegiad I)**

Gwaith lolo Morganwg, gw. IMChY 13–14.

**A194 Yr alarch ar ei wiwlyn (BDG CXC; DGG<sup>2</sup> XXVI; BU 28; DGA 31)**

Cywydd i anfon yr alarch yn llatai. H 26, 487 yw cynsail pob copi arall, mae'n debyg (ond nis nodir ym Maldwyn am nas rhestrir yn RMWL), ac awgrymir enw Dafydd ab Edmwnd yno hefyd. Mae'r mynegiant yn llyfn, heb ond ychydig o dorymadroddi, ac mae canran y gynghanedd sain yn isel (tua 14%). Sillefir enw'r ferch, sef Hunydd mae'n debyg, mewn cwpled a geir hefyd yn BDG CLXVI (gw. A163 uchod). Dylid ystyried hwn ynghyd â'r ddau gywydd llatai dilynol (A195 ac A196) gan mai H 26 yw'r dystiolaeth gynharaf dros awduraeth DG yn achos y tri.

**A195 Yr eogwas o'r eigiawn (BDG LXXV; DGG<sup>2</sup> XXIX; DGA 37)**

Cywydd i anfon yr eog yn llatai. Mae'r arddull yn gypledol a chanran y gynghanedd sain yn isel (tua 14%). H 26 yw cynsail y copïau sy'n ei roi i DG. Dafydd Epynt yw'r awdur yn ôl llawysgrifau Llywelyn Siôn, Gwilym Tew yn ôl BM 24, a Ieuan Tew yn ôl C 7, Pen 64, BM 48 a C 27.

**A196 Yr eryr hardd arwyrain (BDG CLXXXVII; DGG<sup>2</sup> XXVII; DGA 36)**

Cywydd i anfon yr eryr yn llatai. H 26 yw'r ffynhonnell gynharaf, a'r unig destun sy'n annibynnol arni, efallai, yw CM 5 (ond mae'r cywydd yn y rhan o'r llsgr. sy'n perthyn i ddiwedd yr 17g.). O ran arddull mae'r cywydd hwn yn edrych yn gynharach na'r ddau gywydd llatai blaenorol (A194 ac A195), gyda rhywfaint o dorymadroddi a thua 25% o gynghanedd sain. Ond mae'r disgrifiad o'r llatai ei hun yn fyrrach o lawer na'r hyn a geir yng nghywyddau llatai DG, ac mae'r prif sylw ar y ferch a'r neges ati. Cynhwysir cwpled a geir hefyd yn 'Yr Iwrch' (46.33–4 = DGA 36.37–8).

**A197 Yr haf bendefig rhyfalch (BDG Ychwanegiad XII)**

Gwaith lolo Morganwg, gw. IMChY 25–7.

**A198 Yr haul deg ar fy neges (BDG XCIII; IGE<sup>2</sup> L; DGA 42; GGLI 9)**

Cywydd i anfon yr haul i Forgannwg. Fe'i priodolir i DG yn Pen 54, ond i Ieuan ap Gruffudd Gwent yn Pen 57. Fodd bynnag, mae mwyafrif y llsgrau o blaid awduraeth Gruffudd Llwyd, ac fe'i cyhoeddwyd fel ei waith ef yn IGE ac yn GGLI.

**A199 Yr wyf fi yn caru dyn (BDG CLXXXI)**

Traethodl a briodolir i DG yn Bl e 1 a llawysgrifau cysylltiedig.

**A200 Yr ydym ni ein dau yn diwynaw (GDG t. 419)**

Dau englyn unodl union yr honnir i DG eu canu yn ateb i'w dad. Fe'u ceir mewn 11 o llawysgrifau o'r 17g. ymlaen.

**A201 Yswbwb o'r bobl ansyber (GDG t. 418)**

Englyn unodl union a geir yn Pen 97, J 16, M 131, CM 381 a Ba 6. Fe'i priodolir i Rosier Cyffin yn C 84.

**A202 Y tafod nid wyd hyfedr (BDG CXLVI; IGE<sup>2</sup> LXX; GDBMW 12)**

M 212 yw ffynhonnell y llawysgrifau sy'n priodoli'r cywydd hwn i DG. Fe'i ceir hefyd wrth enw lolo Goch, ond fe'i cyhoeddwyd fel gwaith Llywelyn ab y Moel yn GDBMW.

**A203 Y twrch o'r graig mewn torch gron**

Cyfres o bedwar englyn unodl union am felin ddŵr a briodolir i DG mewn dwy llawysgrif o'r 19g. Ceir yr englyn cyntaf yn unig yn ddiennw mewn chwe llawysgrif arall, a'r cynharaf o'r rheini yw LIGC 872 (Siôn Brooke o Fawddwy, 1590–1). Golygwyd y gerdd

gan R. Geraint Gruffydd yn ZCP 49–50 (1997), 273–81, a'i farn ef ar sail ieithwedd yw ei bod yn perthyn yn ôl pob tebyg i'r 15g. neu ddechrau'r 16g.

**A204 Y wawr a ddengys rudd wngoch**

C 12 (tua 1600) yw'r cynharaf o'r pedwar copi. 'Cerdd anghelfydd a'i hiaith yn fynych yn llwgr' yw barn Thomas Parry.